# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 5 Hydref 2011** |
| Amser: | **09:16 - 11:40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_05_10_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie Morgan**<br>**Lynne Neagle**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Karin Phillips, Is-adran Diogelwch Cymunedol**<br>**Sarah Cooper, Pennaeth Cyfiawnder Ieuenctid**<br>**Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies.

### 2. Sesiwn Craffu ar waith y Gweinidog : Cyfiawnder Ieuenctid

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y tystion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- Y manylion ynghlych nifer y plant sydd yn y ddalfa yng Nghymru, gan gynnwys eu lleoliad a'u rhyw.

- A wariwyd yr holl arian yn y gronfa Diogelu Cymunedau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf

- Y gyllideb refeniw cyfiawnder ieuenctid

- Cryfhau rôl y Comisiynydd Plant mewn perthynas â phlant o Gymru sydd yn y ddalfa yn Lloegr

- Nifer yr unigolion yn y ddalfa sy'n cael dedfryd o garchar yn y diwedd

## 3. Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, i'r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y Comisiynydd.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y ffaith nad oes canllawiau o hyd ar gyfer asesu anghenion gofal iechyd plant.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc blaenorol ar gyllidebu ar gyfer plant; a'r oedi o ran cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant.

## 4. Papurau i'w nodi

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.